



Ein Datganiad Gwerth am Arian

Cyfnod 1^{af} Ebrill 2023 – 31^{ain} Mawrth 2024

Cynnwys

Tudalen **3** - **Crynodeb Gweithredol**

Tudalen **4** - **Ymwreiddio Gwerth am Arian**

Tudalen **5** - **Perfformiad**

Tudalen 5 - Gweddill dros ben

Tudalen 6 - Gwneud y Gorau o'n Hincwm

Tudalen 6 - Gwneud y Gorau o'n sylfaen costau

Tudalen 7 - Caffael

Tudalen 8 - Boddhad Cwsmeriaid a Pherfformiad

Tudalen 9 - Rheoli Tai

Tudalen 10 - Atgyweiriadau Ymatebol, Tai Gwag a Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio

Tudalen 10 - Rheoli Eiddo

Tudalen 11 - Gwneud y mwyaf o'n pobl

Tudalen **12** - **Ffordd Ymlaen**



Yn Agored

Byddwn yn gweithredu'n onest a gydag uniondeb a bydd ein penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynhwysol ac yn dryloyw.



Yn Deg

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau teg a sicrhau cyfle cyfartal i bawb.



Yn Hyblyg

Byddwn yn arloesol ac yn rhagweithiol ac yn ystyried newid fel cyfle.



Yn Cyflawni

Byddwn yn gosod ac yn cyrraedd nodau a thargedau uchelgeisiol.

Crynodeb gweithredol

Gweledigaeth Grŵp Tai Sir Fynwy yw darparu cartrefi, gwasanaethau a chymorth cynaliadwy, diogel, o ansawdd uchel yn ei gymunedau.

Gyda'r sector tai eisoes yn cydbwysu cost uwch adeiladu a chynnal cartrefi cynaliadwy gyda'r galw cynyddol am gymorth ychwanegol i denantiaethau, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithredu ar y lefelau gorau posibl i ddarparu ar gyfer yr heriau ychwanegol hyn yn effeithiol. Mae ein cynlluniau strategol wedi'u seilio ar y meddylfryd diwylliannol hwn, gan sicrhau bod pob adnodd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddoeth er budd Grŵp Cymdeithas Tai Sir Fynwy a chreu 'gwerth' go iawn i'r rheiny yn ei gymunedau. Mae ein dull o greu gwerth wedi'i nodi ym Mholisi Gwerth am Arian CTSF.

Integreiddio
Gwerth am Arian
i benderfyniadau,
cynllunio ac adrodd

Monitro cyflawniad
Gwerth am Arian
drwy adrodd a
meincnodi

Sicrhau
bod
egwyddorion
Gwerth am Arian yn
cael eu deall ac mai
cyfrifoldeb y staff i gyd
yw dilyn egwyddorion
Gwerth am Arian yng
ngweithgareddau'r
Gymdeithas

Y gallu i ddangos
bod Gwerth am
Arian yn cael ei
gyflawni

Mae ein cynlluniau am dwf wedi'u clymu'n agos â Capsel Homes Ltd (is-gwmni masnachu Grŵp CTSF), a'i ymrwymiad i gefnogi amcanion cymdeithasol a chymunedol CTSF. Mae'r gefnogaeth hon yn cael ei gwireddu'n uniongyrchol, trwy ehangu'r cyflenwad o gartrefi newydd carbon isel, fforddiadwy, ac yn anuniongyrchol, trwy gymorth rhodd o'i weithgareddau masnachol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Capsel Homes wedi rhoi £790k yn ôl i CTSF, sydd wedi bod yn allweddol wrth ariannu inswleiddio hanfodol mewn croglofftydd a mentrau 'gwyrdd' eraill yn ei stoc.

'Mae 'gwerth' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae'r datganiad hwn yn cydnabod ystyr y term 'gwerth' i'n rhanddeiliaid, sut yr ydym wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl a sut mae camau effeithlonrwydd yn cael eu gwneud, eu rheoli a'u huchafu.


Ein gweledigaeth yw darparu cartrefi o ansawdd uchel i gwsmeriaid presennol a newydd. Rydym yn ceisio trawsnewid bywydau a helpu pobl i wireddu eu huchelgeisiau o fewn cymunedau ac ardaloedd bywiog ble maen nhw'n dyheu i fyw a gweithio.

"Nid yw GaA yn ymwneud â mesurau ariannol neu dorri costau'n unig. Dylai fod yn egwyddor trosfwaol ar gyfer y busnes cyfan, gan geisio cydbwysu costau gyda deilliannau a ddymunir ac ysbrydoli opsiynau a dewisiadau; cefnogi mwy o ddarpariaeth tai newydd, gwella cartrefi a gwasanaethau a chaniatáu i gymdeithasau ddatblygu gweithgareddau ychwanegol priodol."



– Bob Smith, Bwrdd Rheoleiddio Cymru 2017

Ymwreiddio Gwerth am Arian

Model a fabwysiadwyd ym Mholisi GaA CTSF, yn dangos agweddau allweddol prosesau a gweithdrefnau mewnol:



Gallwn gyflawni hyn orau trwy weithredu yn y ffyrdd mwyaf effeithlon, economaidd ac effeithiol posibl.



Perfformiad

Ciplun o lwyddiannau allweddol yn ystod y flwyddyn 2023/2024:



£65,299

Buddion cost y flwyddyn o gyflwyno technolegau newydd



89.3%

Boddhad gyda gwasanaeth cyffredinol



£710,501

Arbedion yn seiliedig ar weithgareddau caffael.



51

o Gartrefi newydd wedi'u hadeiladu

'Mabwysiadwyr' Safonau Adrodd ar Gynaliadwyedd y DU Rheoleiddio:
Barn



Ewch i'n gwefan i ddarllen mwy am ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a'r effeithiau cadarnhaol a wnaed yn ein cymunedau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gweddill dros ben

Mae ein gwaged gweithredol (incwm mwy, llai o gostau gweithredu) yn cael ei ail-fuddsoddi mewn cynnal cartrefi presennol, darparu mwy o gartrefi fforddiadwy a darparu gwasanaethau eithriadol i denantiaid.

Gwaged gweithredol y Gymdeithas dros y pedair blynedd diwethaf oedd:

Blwyddyn ariannol	Gwaged Gweithredol £'000	Gwaged Gweithredol %
2023/24	6,333	24.36
2022/23	1,120	4.61
2021/22	3,820	13.34
2020/21	4,217	18.41

Sicrhodd y perfformiad uchod bod CTSF yn cynhyrchu digon o arian dros ben i fodloni gofynion cyllidwyr ac i gefnogi uchelgeisiau'r Gymdeithas i ddatblygu yn y dyfodol fel y nodir yn ei Chynllun Busnes tymor hir. Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 gwelwyd gwelliant sylweddol mewn perfformiad ariannol o ganlyniad i gyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn nifer o gynlluniau gan gynnwys Strategaeth Ddigidol y Gymdeithas a chynlluniau caffael amrywiol.

Optimeiddio ein hincwm

Gwneud y mwyaf o renti

Nod polisi gosod rhent CTSF yw darparu methodoleg o gyfrifo rhenti sy'n ddigonol i sicrhau bod CTSF yn parhau i wneud y mwyaf o'i chyfraniad i'w chymunedau; wrth sicrhau bod rhenti bob amser yn parhau'n deg, yn dryloyw ac yn fforddiadwy i denantiaid.

Lleihau'r amser y mae ein cartrefi'n wag rhwng tenantiaethau

Mae CTSF yn parhau i weithio tuag at darged cyrraedd 28 diwrnod o 'allweddi i mewn i allweddi allan'. Rydym wedi parhau i arwain yn y sector gyda safon eiddo gwag sy'n rhagori ar yr LCC eraill gan gynnwys ailaddurniad llawn, yr holl waith trwsio wedi'i gwblhau, lloriau drwyddo draw a gwaith gardd lle bo angen.

Adennill y mwyaf posibl o rent a thaliadau gwasanaeth

Mae ôl-ddyledion tenantiaid presennol a chyn-denantiaid wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, a gellir priodoli hyn i waith ataliol sy'n cael ei wneud yn y ddau faes, ynghyd ag ymagwedd gefnogol a disgwyliadau clir.

Dyddiad	Swm Ariannol	Debyd Casgladwy Gros (£)	Gwerth Perfformiad	Targed
Mawrth 2024	216,123.93	21,796,288	0.99%	1%
Mawrth 2023	244,827.08	20,139,413.5	1.22%	1%

Canran yr ôl-ddyledion rhent presennol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol:


Dyddiad	Swm Ariannol	Debyd Casgladwy Gros (£)	Gwerth Perfformiad	Targed
Mawrth 2024	475,966.47	21,796,288	2.18%	3%
Mawrth 2023	450,460	20,139,413.5	2.24%	3%

Optimeiddio ein sylfaen costau

Dangosydd Perfformiad Allweddol	CTSF 2023/24	CTSF 2022/23
Costau gweithredu ar gyfer gosod fesul uned tai cymdeithasol	£5,459	£5,978
Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol	£1,174	£1,435
Costau atgyweirio adweithiol fesul uned tai cymdeithasol	£2,426	£2,833
Costau atgyweirio ac elfennau mawr fesul uned tai cymdeithasol	£1,698	£1,474
Dyledion drwg fesul uned tai cymdeithasol	£4.96	£40.02
Cost cyfalaf ar gyfartaledd pwysol	2.25%	2.25%
Ôl-ddyledion gros / trosiant tai cymdeithasol	5.25%	5.06%
Cyfanswm rhent fesul uned tai cymdeithasol	£5,736	£5,361
Colli gwagle rhent fesul uned tai cymdeithasol	£46.99	£43.97

Mae CTSF wedi ymdrechu i leihau ei chostau rheoli flwyddyn ar ôl blwyddyn i hwyluso mwy o fuddsoddiad yn ei chymunedau. Mae mwy o fuddsoddiad mewn atgyweiriadau mawr a gynlluniwyd, dros nifer o flynyddoedd, wedi cael effaith gadarnhaol ar waith atgyweirio adweithiol dros yr un cyfnod. Mae lefelau dyledion gwael yn dangos dull rhagweithiol a chefnogol y gymdeithas o reoli dyled tenantiaid. Mae cost bwysol cyfalaf y gymdeithas yn parhau i fod yn isel iawn yn dilyn ailariannu sylweddol yn 2021 lle sicrhodd CTSF gyllid tymor hir gyda chyfraddau llog isel iawn - gan ganiatáu iddi fuddsoddi ymhellach yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu a sicrhau twf cynaliadwy o dai fforddiadwy yn y rhanbarth y mae'n gweithredu ynddo.


O ble mae'r Grŵp yn cael ei arian: Incwm 2023/2024



- Rhent l'w Dderbyn
- Incwm o Daliadau Gwasanaeth
- Incwm gan Lesddeiliaid
- Incwm ar gyfer Gwasanaethau Cymorth
- Grantiau Llywodraeth wedi'u Hamorteiddio
- Incwm Arall

Cyfanswm **£25,804m**

Sut mae arian y Grŵp yn cael ei wario: Gwariant 2023/2024



- Costau Rheoli
- Costau Taliadau Gwasanaeth
- Cynnal a Chadw Arferol
- Atgyweiriadau Mawr
- Drwg-ddyledion
- Dibrisiant Tai
- Costau Eraill

Cyfanswm **£20,931m**

Caffael

Llwyddwyd i gyflawni arbedion cyllidebol gwerth **£710,501**, gan ddangos gwerth arferion caffael strategol. Mae'r prif lwyddiannau'n cynnwys:

- **Cynilion Ynni** - Gweithio gydag ymgynghorwyr ynni i ddadansoddi data defnydd a phenderfynu ar yr amser gorau posibl i fynd at y farchnad, gan arwain at arbedion cytundebol o dros 50% o gymharu â'r cytundeb blaenorol.
- **Gwaith i Doeau** trwy System Prynu Deinamig (DPS) i gael mynediad at gyflenwyr lleol cymwysedig ymlaen llaw, gan gefnogi twf economaidd. Roedd cais y cyflenwr buddugol 53% yn rhatach na'r cyflwyniad a ddaeth yn ail.

Yn ogystal, sicrhawyd **£53,046** drwy gytundebau caffael, buddion cymunedol a chyllid allanol. Caiff yr arian hwn ei roi i gefnogi gweithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau dan arweiniad Tîm Ymgysylltu CTSF.

Bodddhad Cwsmeriaid a Pherfformiad

Mae CTSF yn cynnal ei harolwg ei hun gyda defnyddwyr gwasanaeth, gyda'r diwethaf yn cyflawni cyfradd ymateb o 32.9%, ac mae'r canlyniadau'n cael eu defnyddio ar lefel tîm i nodi bylchau yn y ddarpariaeth, fel y gellir targedu adnoddau yn y meysydd cywir.

Gweler y canlyniadau isod, gan gynnwys sefyllfa debyg yn erbyn y 45 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig arall ledled Cymru:

90%

yn fodlon gyda'r gwasanaeth ar y cyfan



60%

yn fodlon bod taliadau gwasanaeth yn rhoi Gwerth am Arian



94%

yn fodlon ag ansawdd eu cartref



87%

yn fodlon bod rhent yn rhoi Gwerth am Arian



84%

yn fodlon â chymdogaethau fel lle i fyw



85%

yn fodlon ag atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw



Canolfan Galwadau Cwsmeriaid:



99.8%

yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm CSA.

Bodddhad gydag atgyweiriadau:



96.54%

o foddhad gyda'r gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw a ddarperir gan y Gwasanaethau Adeiladu.

Rheoli Tai

Er gwaethaf cyfraddau chwyddiant yn gostwng, mae cost talu am hanfodion bywyd fel siopa wythnosol, gwresogi ein cartrefi a llenwi ein ceir yn parhau i fod yn anfforddiadwy i lawer o bobl.

Mae gan denantiaid tai cymdeithasol y gyfradd uchaf o dlodi mewn unrhyw ddeiliadaeth ac maen nhw'n dioddef yn arbennig, gydag un o bob 7 o blant Sir Fynwy yn byw mewn tlodi a theuluoedd yn gorfod cael parseli bwyd brys yn rheolaidd ac ymweld â banciau bwyd.

Gyda chyfradd amddifadedd digidol o 12.5% (yn 2019) yn Sir Fynwy wledig rydym yn gwybod bod arwahanrwydd digidol a chysylltedd mewn rhai ardaloedd yn parhau i fod yn her wirioneddol gan adael llawer o drigolion, yn enwedig pobl hŷn, heb allu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â gwasanaethau hanfodol a'u hanwyliaid.

Gall cyfnodau hir o ynysu ynghyd â chael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd gael effaith fawr ar iechyd a lles pobl. Mae arbenigwyr ariannol a lles a chyflogaeth ymroddedig CTSF yn gweithio'n galed i ddarparu cymorth ac arweiniad i gael preswylwyr yn ôl ar y trywydd iawn.

Cyllideb Gyffredinol
£996k

Cyllid allanol a phrif ffynonellau
£440,096
(44% o'r gyllideb gyffredinol)

'Gwerth' cymunedol a grëwyd eleni...



£1m+

wedi'i sicrhau fel incwm ychwanegol i denantiaid a chleientiaid cymorth, cynnydd o **£350k** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol



£149k

wedi'i adennill mewn Cyllid Ffyniant Cyffredin i gyflenwi'r prosiect cynhwysiant digidol iConnect



£133k

o gymorth uniongyrchol i'r rhai a oedd yn dioddef caledi



32

o bobl eu cefnogi i mewn i waith eleni sy'n cynrychioli gwerth cymdeithasol o **£412,032**



£25k

o gefnogaeth i grwpiau cymunedol lleol trwy Pitch For Your Project



444

o denantiaid wedi eu cefnogi gan y Tîm Money Wise



£9,200

o adnoddau allanol - trosglwyddwyd talebau tanwydd, CCD a thalebau clybiau bwyd ac ati i'r rhai mewn angen



23

wedi mynychu cyrsiau hyfforddi



984

o oriau gwirfoddolwyr hyrwyddwyr digidol yn creu gwerth cymdeithasol o **£10,253** gyda chyfanswm o **13,467** o oriau gwirfoddoli cymunedol yn cael eu rhoi, sy'n cyfateb i werth **£140,326**



tenantiaeth

Cafodd 63

o bobl eu cynorthwyo gyda materion



39

o ddigwyddiadau wedi eu cynhyrchu ar y cyd, gan ddenu 1,739 o bobl

Ewch i weld ein ffilm 'Brighter Futures' sy'n cofnodi profiadau byw.

Atgyweiriadau ymatebol, Cartrefi Gwag a Gwaith Cynnal a Chadw a Raglennir

Cyflwynodd CTSF system atgyweiriadau newydd yn 2023. Mae hyn wedi galluogi gwell trefnu apwyntiadau a gwell cyfathrebu i atgoffa cwsmeriaid o apwyntiadau.

Mae CTSF yn parhau i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel gan roi cwsmeriaid yn gyntaf, ac addurno'n llawn a gosod lloriau trwy'r cartref wrth drosglwyddo eiddo gwag.

Mae gwelliannau wedi'u cynllunio fel gwaith i'r gegin, yr ystafell ymolchi, y system gwresogi a gwaith allanol yn cael eu gwneud ar y pryd mae'r eiddo'n wag, ochr yn ochr â rhaglen wedi'i chynllunio i'w chyflawni.

Creu gwerth ...



97.46%

o'r atgyweiriadau wedi eu cwblhau y tro cyntaf gyda'r targed



96.54%

o gwsmeriaid yn fodlon ag atgyweiriadau gyda'r targed



99.84%

o apwyntiadau atgyweirio yn cael eu cadw gyda'r targed



34

o ddiwrnodau i droi cartrefi gwag o gwmpas - gosodiadau cyffredin (ac eithrio eiddo gwag sydd angen gwaith mawr)

Yn 2023/24 ...



Gosodon ni **128**

o geginau ac ystafelloedd ymolchi



Gosodon ni **187**

o welliannau i foeleri



Gosodon ni **147**

o ffenestri a drysau



Gosodon ni **122**

o doeau newydd

Rheoli Eiddo

Recriwtio a Hyfforddi a Buddion Cymunedol

Mae CTSF wedi ymrwmo i sicrhau bod popeth a wnawn yn cael effaith gadarnhaol yn ein cymunedau. Mae ein rhaglenni buddsoddi yn rhoi cyfleoedd pellach i ni sicrhau bod ein tenantiaid a'n trigolion yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn a wnawn ac mai eu blaenoriaethau nhw yw ein blaenoriaethau ni. Mae'n bwysig i ni ein bod yn sicrhau cymaint o werth â phosibl o unrhyw fuddsoddiad a wnawn a bod y gwerth yr ydym yn ei sicrhau yn cael ei ail-fuddsoddi yn y cymunedau sydd ei angen fwyaf.

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi gwytnwch cymunedau, sydd wedi gwneud ymdrechion enfawr i gynnal eu lles trwy raglenni a gweithgareddau a gychwynnir yn lleol.

Ein nodau wrth wireddu gwerth cymdeithasol yn ein buddsoddiad yw creu cyfleoedd i'n tenantiaid a'u teuluoedd gael profiad gwaith gwerthfawr; darparu cyllid i alluogi ein partneriaid cymunedol i gyflenwi prosiectau, ac i weithio gyda'n tenantiaid i liniaru'r heriau a ddaw yn sgil costau byw cynyddol.

Cliciwch yma i weld yr hyn mae ein Tîm Ymgysylltiad wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn.

Gwneud y mwyaf o'n pobl

Cadw pawb yn ddiogel

Mae Grŵp CTSF yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn rhaglenni dysgu a datblygu iach sy'n cefnogi cymwysterau gorfodol, rôl-benodol (e.e. iechyd a diogelwch) a phroffesiynol. Mae ei raglen boblogaidd a theg 'Arweinwyr y Dyfodol' yn caniatáu i 3 o gyflogeion y flwyddyn ddysgu a thyfu eu sgiliau arwain trwy fentora, hyfforddi a rheoli prosiectau.

Mae CTSF hefyd yn gweithredu rhaglen datblygiad personol nad yw'n gysylltiedig â gwaith, gan gynorthwyo gweithwyr yn ariannol i ddysgu sgiliau personol ychwanegol, ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae: garddwriaeth, hyfforddwr ffitrwydd a gwersi gyrru.

Annog Ffitrwydd a Lles

Mae nifer o bolisiau a buddion CTSF yn cefnogi lles ei gweithwyr, gan gynnwys cynllun beicio i'r gwaith, prynu a gwerthu gwyliau, gwasanaethau cwnsela/iechyd galwedigaethol, yr hawl i ofyn i gael gweithio'n hyblyg a chyfarfodydd pob 6 wythnos gyda rheolwyr.

Gyda phwyslais cynyddol ar iechyd a lles staff, ail-lansiodd CTSF ei grŵp iechyd a lles pwrpasol 'Bywyd ac Enaid'. Yn sgil creu grwpiau staff fel Motivate, grŵp colli pwysau Minimise Me a grŵp rhedeg Monmouthshire Milers, bu staff yn dod at ei gilydd, yn cymdeithasu ac yn gweithio tuag at nod iechyd a ffitrwydd cyffredin.

Mae'r cyfan yn hyrwyddo Safonau Rheoli'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch i leihau lefelau straen a chynnig arbenigedd i gefnogi unigolion i gynnal lefelau presenoldeb da.



Lefelau presenoldeb

yn 2023/24, cyfraddau absenoldeb salwch oedd **3.08%** Trosiant



Trosiant (gwirfoddol)

Yn 2023/24 cyfraddau trosiant staff oedd **9.8%**



Roedd 100%

o gydweithwyr yn teimlo'n hyderus bod ganddynt y sgiliau i wneud eu gwaith (arolwg staff diweddar)



3.5%

o staff CTSF gymwysterau proffesiynol yn ystod y 12 mis diwethaf



14.4%

o fwllch cyflog canolrifol... Mae Grŵp CTSF yn talu Cyflog Byw Go lawn

Ein cynlluniau GaA ar gyfer 2024-25

Mae cynlluniau gwella parhaus CTSF yn canolbwyntio, ar y cyfan, ar gryfhau ein hymrwymadau i'r amgylchedd (Planed), y cymunedau yr ydym yn gwasanaethu ynddynt (Pobl / Lleoedd) a chryfhau ein sefyllfa ariannol a'r ffordd yr ydym yn cael ein llywodraethu (Ffyniant).

Rydym yn angerddol dros greu Cymru fwy cynaliadwy, gan gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac rydym yn falch o fod yn rhan o'r gymuned gynyddol sy'n cydweithio i hyrwyddo ffyniant wrth ddiogelu'r blaned yr un pryd, i gyflawni nodau datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Rydym wedi mabwysiadu Safonau Adrodd Cynaliadwy (SAC) y DU, gan sicrhau ein bod yn rhoi gwybod am ein perfformiad amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu mewn ffordd dryloyw, gyson a chymaradwy.

Darllenwch ein [Strategaeth Busnes Cyfrifol](#) (SBC).

Ein 5 ymrwymiad allweddol ar gyfer Gwerth am Arian yw:

- Cynnal lefelau uchel o foddhad tenantiaid â GaA (rhent a thaliadau gwasanaeth)
- Optimeiddio enillion yn y dyfodol ar asedau a ddefnyddir
- Parhau i wella ein dealltwriaeth o'n sefyllfa gwerth am arian cyfredol
- Cyfeirio adnoddau i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau rheng flaen, cynnal asedau presennol a darparu cartrefi newydd.
- Parhau i hyrwyddo ac ymwreiddio diwylliant GaA.



POBL



MANNAU



FFYNIANT



PLANED

Targedau ar gyfer 2024/25

Planed a Lleoedd

- Cyflenwi camau 1 a 2 y rhaglen Datgarboneiddio Llwybr Sero Net Ynni Gweithredol
- Adolygiad o'r gwasanaeth a gwelliant o'n Safon Aur Eiddo Gwag a'n gwasanaethau, yn unol â SATC2
- Adolygu ein hymagwedd at damprwydd a llwydni
- Cyflawni targed o 0.5% o wastraff busnes i gael ei gladdu

Prosperity

- Cynnal ôl-ddyledion rhent cyffredinol ar 3% a 6% o ôl-ddyledion CC - uchafswm
- Cynnal adolygiad GaA o gytundebau cynnal a chadw tiroedd allanol
- Sicrhau 20% pellach o newid sianel
- Sicrhau cyllid ac adnoddau amgen pellach i fynd i'r afael ag allgau digidol
- Lleihau gwariant heb gytundeb, cyflwyno hyfforddiant rheoli contractau a pharatoi ar gyfer Deddf Caffael 2023 newydd

People

- Cyflawni targed boddhad cwsmeriaid cyffredinol o 90%, a datblygu cynllun gwella wedi'i dargedu
- Creu Strategaeth a chynllun gweithredu EDI newydd
- Cyflawni targed o 95% o denantiaethau yn cael eu cynnal y tu hwnt i Flwyddyn 1



📞 **0345 677 2277**

✉️ **customerservices@monmouthshirehousing.co.uk**

🌐 **www.monmouthshirehousing.co.uk**

✉️ **Monmouthshire Housing Association**
Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park
Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ

📘 **facebook.com/Monmouthshire.Housing**

📄 **X.com/mon_housing**

Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol ar **01495 761104** neu **corporateservices@monmouthshirehousing.co.uk** os ydych chi angen y ddogfen hon yn Saesneg neu mewn unrhyw iaith arall, PDF, print bras, Braille neu mewn fformat sain.